

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 9fed Gorffennaf, 2019 at 10.00 am

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir T.Thomas (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir (Is-Gadeirydd)

Cynghorwyr Sir: L.Jones, D. Jones, M.Lane,
M. Powell and J.Watkins

Swyddogion yn Bresennol

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Wendy Barnard, Swyddog Gwasanaethau
Democratiaidd
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Cath Saunders, Y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl
Ifanc

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Sir L.Brown

1. Datganiadau o Fuddiant

Derbyniwyd datganiadau buddiant personol, nad ydynt yn rhagfarnol, mewn perthynas ag eitemau 4 a 5 ar yr agenda, fel a ganlyn:

Y Cynghorydd Sirol M. Powell: Llywodraethwr Ysgol Uwchradd King Henry VIII.

Mrs. M. Harris: Llywodraethwr Ysgol Gynradd Deri View.

Y Cynghorydd Sirol T. Thomas Llywodraethwr Ysgol Gymraeg y Fenni.

Y Cynghorydd Sirol D. Jones Llywodraethwr Ysgol Gymraeg y Fenni ac Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucornau, a Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Llan-ffwyst a Llanfihangel Crucornau.

Y Cynghorydd Sirol R. Harris: Llywodraethwr Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandeilo Bertholau

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Cytundeb Partneriaeth Ysgolion a Gynhelir

Pwrpas:

Diben yr adroddiad yw i'r aelodau gytno ar y Cytundeb Partneriaeth Statudol ar ôl ystyried sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019.

Argymhellion:

Argymhellir bod aelodau'n cytuno ar y Cytundeb Partneriaeth Statudol.

Materion Allweddol:

1. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn cynnwys y swyddogaethau statudol hynny y mae'n rhaid eu cynnwys sef:

- Sut y bydd yr Awdurdod Lleol (ALI) yn hyrwyddo safonau uchel ac yn cefnogi ysgolion yn arbennig y rhai sy'n peri pryder, mewn mesurau arbennig neu sydd angen gwelliant sylweddol, a'r ffactorau y bydd yr ALI yn eu hystyried wrth nodi ysgolion sy'n peri pryder.
- Y cymorth y bydd yr ALI yn ei ddarparu ar gyfer cyrff llywodraethu lle mae'r awdurdod wedi arfer ei bwerau ymyrryd neu wedi atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig, ac mewn achosion lle mae arolygiad o ysgol yn peri pryder neu pan fydd yr ALI yn penodi llywodraethwyr ychwanegol.
- Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol i roi cymorth i lywodraethwyr
- Yr adroddiadau y mae'r corff llywodraethu yn eu darparu i'r ALI wrth gyflawni ei swyddogaethau.
- Cyfrifoldeb yr ysgol a'r ALI dros faterion lechyd a Diogelwch a'u dyletswyddau i gyflogaion a phersonau eraill mewn perthynas â'r mater hwn.
- Cyfrifoldeb yr ysgol a'r ALI am reoli adeiladau ysgolion a'u gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a sut y gall y corff llywodraethu arfer ei bwerau i ddarparu cyfleusterau cymunedol; a
- Dyletswyddau'r ALI o ran talu treuliau a chynnal ysgolion.

Yn ogystal, ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg gynradd, rhaid i'r Cytundeb gynnwys:

- Arfer swyddogaethau gan yr ALI a'r corff llywodraethu a fydd yn hyrwyddo safonau uchel ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i 3 a;
- Gosod targedau ALI mewn perthynas â chynlluniau addysg a gosod targedau cyrff llywodraethu mewn perthynas â pherfformiad ac absenoldeb disgyblion.

Ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg uwchradd rhaid i'r Cytundeb gynnwys:

- Arfer swyddogaethau gan yr ALI a'r corff llywodraethu a fydd yn hyrwyddo safonau uchel ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 a 3 ac o gyfnod allweddol 3 i 4; a
- Gosod targed mewn perthynas â chynlluniau addysg a gosod targedau cyrff llywodraethu mewn perthynas ag absenoldeb.

2. Ymgynghorwyd â Phenaethiaid a Chymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir Fynwy ar y Cytundeb Partneriaeth a bydd safbwyntiau a sylwadau yn cael eu cynnwys yn y ddogfen derfynol a gyflwynir i'r Cabinet maes o law.

Craffu gan Aelodau:

Cyflwynwyd y Cytundeb Partneriaeth gan y Rheolwr Llywodraethu Plant a Phobl Ifanc. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Dethol i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau fel a ganlyn:

- Eglurodd y Cynghorydd Sirol M. Groucutt fod y Cytundeb Partneriaeth wedi'i adolygu oherwydd pryderon a godwyd gan Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir Fynwy; yn bennaf, bod y ddogfen yn nodi swyddogaethau ar gyfer llywodraethwyr a fyddai fel arfer yn faes arweinyddiaeth ysgolion. Byddai'n rhaid i lywodraethwyr sy'n ymgymryd â swyddogaethau o'r fath ddibynnu dim ond ar wybodaeth a dderbynnir. Ers yr adolygiad ac ar ôl newid rhywfaint o eiriad, cymeradwyodd y Cynghorydd Groucutt a chanmolodd y ddogfen, sydd bellach yn datrys pryderon llywodraethwyr.
- Cadarnhaodd cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Sir Fynwy fod y gymdeithas yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddatrys pryderon ac yn fodlon ar y fersiwn ddiwygiedig.
- Awgrymodd Aelod o'r Pwyllgor rai newidiadau technegol i sicrhau bod y ddogfen yn gyfredol a chytunodd i e-bostio ei hawgrymiadau ar wahân i'w hymgorffori cyn i'r Cabinet eu hystyried, ac ymlaen i symud ymlaen i gyrff llywodraethu ysgolion.

Casgliad y Pwyllgor:

Derbyniodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor Dethol, y Cytundeb Partneriaeth fel yf cyflwynwyd.

O ystyried maint a chymhlethdod y ddogfen, awgrymwyd y byddai angen hyfforddiant ar Lywodraethwyr Ysgolion a chyrfi llywodraethu unigol er mwyn sicrhau eglurder cyfrifoldebau.

4. Datganiad Alldro Monitro Refeniw a Chyfalaf 2018/19

Pwrpas:

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn seiliedig ar lithriad cyfalaf a chymeradwyaeth a gohirio wrth gefn.
2. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cael ei ystyried gan Bwyllgorau Dethol fel rhan o'u cyfrifoldeb i:
 - asesu a yw monitro cyllidebau effeithiol yn digwydd,
 - monitro i ba raddau y caiff cyllidebau eu gwario yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi y cytunwyd arnynt,
 - herio rhesymoldeb rhagamcanol dros orwariant neu danwariant, a
 - monitro cyflawniad enillion neu gynnydd effeithlonrwydd a ragwelir mewn perthynas â chynigion arbedion.
3. Gan gydnabod y diben deublyg i friffio'r Cabinet/holl aelodau o'r sefyllfa gyfunol, a phwyllgorau craffu unigol o agweddau penodol sy'n effeithio ar eu buddiannau portffolio, mae'r olaf wedi'i godio â lliw (gwyrd) i gynorthwyo aelodau craffu pwyllgorau penodol

Argymhellion y cynigiwyd i'r Cabinet:

1. Bod yr Aelodau'n ystyried alldro refeniw net o warged o £49 mil.
2. Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r gwarged refeniw ar gyfer y flwyddyn sy'n cael ei ddefnyddio i ailgyflenwi'r gronfa gynhyrchu Derbyniadau Cyfalaf wrth gefn, ac yn nodi bod y gronfa wrth gefn buddsoddi â blaenoriaeth wedi'i chau'n effeithiol, gan gydnabod defnydd balansau wrth gefn ar alldro, y lithriad i gronfeydd wrth gefn 2019-20 arfaethedig a'r lefel isel o cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a fydd yn lleihau'n sylweddol yr hyblygrwydd sydd gan y Cyngor i ail-lunio gwasanaethau a hwyluso newid i liniaru'r her o adnoddau prin wrth symud ymlaen.
3. Mae'r Aelodau'n nodi graddau'r symudiadau mewn cyfrannau unigol a gyllidebwyd ar falansau ysgolion, ac adroddwyd am fwriadau'r cynllun adfer o ganlyniad i'w newidiadau cymeradwyo i ganllawiau Ariannu Tecach ers mis 2
4. Bod yr Aelodau'n nodi bod 81% o'r arbedion pennu cyllideb y cytunwyd arnynt gan y Cyngor llawn o'r blaen a'r camau/arbedion adferol ymhlyg a gynhwyswyd yn y monitro ariannol i wneud iawn am tua 20% o arbedion (£951 mil) a adroddwyd fel rhai a oedd wedi'u gohirio neu heb eu cyflawni gan reolwyr gwasanaethau.
5. Bod yr Aelodau'n nodi'r monitro gwell o wasanaethau Plant ac anghenion dysgu ychwanegol a gynigir, i ddarparu manylion er enghraifft costau uned cyfartalog, y gweithgaredd a nifer y cyflwyniadau a ragwelir a ddefnyddir wrth ragweld, er mwyn rhoi cyfle cynharach i wasanaethau dynnu sylw at bwysau o ran costau, a mwy o amser i'w datrys drwy gamau unioni yn ystod y flwyddyn.
6. Bod yr Aelodau'n ystyried y gwariant alldro cyfalaf o £70.31m, gan gyflwyno gorwariant disgwyliedig o £1.015m, yn derbyn ceisiadau llithriadau o £9.9m yn cael eu

cymeradwyo a'r rhagdybiaethau cysylltiedig a wnaed ynghylch canlyniadau ariannu net.

Craffu gan Aelodau:

Cyflwynodd y Rheolwyr Cyllid ar gyfer Diogelu ac Iechyd Gofal Cymdeithasol, ac ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yr adroddiad. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

Cyllideb Gwasanaethau Plant

- Soniodd Aelod am y cynnydd sylweddol yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a gofynnodd a yw'r nifer hwn yn debygol o barhau i godi. Cytunwyd bod tuedd gynyddol ar i fyny. Atgoffwyd Aelodau'r Pwyllgor Dethol fod y gwasanaeth yn gwneud llawer o waith ataliol ond mae dyletswydd statudol hefyd i weithredu adferol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau sylweddol. Esboniwyd bod Sir Fynwy yn cael y cyllid isaf yng Nghymru a chadarnhaodd fod pob cyfle i sicrhau effeithlonrwydd yn cael ei archwilio (e.e. ymgyrch recriwtio lwyddiannus, fewnol, maethu a mwy o ddefnydd o orchmynion gwarcheidiaeth arbennig.
- Holwyd a oedd newid yn y ddarpariaeth ar gyfer Clybiau Brechwast, ac unrhyw effaith ddilynol ar y defnydd a oeddwn yn manteisio arno. Ymatebwyd bod tâl o £1 i blant nad oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim wedi'i gyflwyno ar gyfer yr elfen gofal plant o fis Medi 2018 ymlaen. Bu rhywfaint o ostyngiad yn y nifer sy'n manteisio, ac roedd swm bach yn ymwneud â theluoedd incwm isel. Yn ogystal, mae rhai ysgolion wedi cyflwyno system archebu sydd hefyd wedi achosi rhywfaint o ostyngiad yn y defnydd.

Cyllideb Plant a Phobl Ifanc

- Nododd Aelod fod yn rhaid i ysgolion godi arian yn fwy rheolaidd i gwmpasu rhai gweithgareddau megis gemau chwaraeon i ffwrdd, triplau dramor i deuluoedd incwm isel, gweithgareddau allgyrsiol. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn dod o'r grant cynnal refeniw a mater i'r Aelodau yw ystyried cyllidebau ysgolion wrth benderfynu ar strategaeth y gyllideb.
- Mynegodd Aelod bryder y gallai fod rhai plant difreintiedig.
- Dywedodd Aelod fod y sir yn adnabyddus am fod yn un o'r cynghorau mwyaf effeithlon yng Nghymru ac yn cydnabod gwaith swyddogion yn unol â hynny.
- Darparwyd sicrwydd na fyddai unrhyw effaith ar ysgolion yn deillio o'r diffyg sy'n gysylltiedig â chlybiau brechwast gan eu bod yn cael eu hariannu'n ganolog.
- O ran y gorwariant sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gofynnwyd i Aelodau ddeall y goblygiadau'n well wrth i'r niferoedd gynyddu ac o ganlyniad mae'r costau'n cynyddu. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu data gwell ac awgrymwyd y gallai hyn fod yn bwnc ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
- Gofynnwyd hefyd am wybodaeth am gyllid teg i ysgolion. Mae rheoliadau ariannu teg yn glir o ran gwahardd ysgolion rhag pennu cyllidebau diffyg os yw pob ysgol mewn sefyllfa ddiffygiol ar y cyd. Atgoffwyd pob ysgol o broses y cynllun adfer. Dywedwyd bod lefel y grantiau refeniw wedi bod yn is eleni ac na ddylai ysgolion ddibynnu ar y posibilrwydd y bydd arian yn cael ei dalu'n hwyr.
- Rhoddodd Aelod wybodaeth y gall Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, ystyried adolygiad o'r fformiwla ariannu.

Casgliad y Pwyllgor:**Crynhodd y Chadeirydd y prif gasgliadau**

Ar gyfer y Gyllideb Gwasanaethau Plant, derbyniwyd bod rhywfaint o ansefydlogrwydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod a hefyd rwymedigaeth statudol a moesol i ofalu am blant. Mae'r cynnydd yn nifery plant sy'n derbyn gofal yn duedd genedlaethol.

O ran y Gyllideb Plant a Phobl Ifanc, roedd pryder ynghylch nifer yr ysgolion mewn sefyllfa o ran cyllideb diffyg a dylid nodi hyn yng nghyfarfodydd strategaeth y gyllideb.

5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**6. Cofnodion 8fed Mai 2019**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8^{fed} Mai 2019 fel cofnod cywir.

7. Cofnodion 21ain Mai 2019

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ⁱⁿ Mai 2021 fel cofnod cywir.

8. Camau Gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol

Mae'r camau sy'n deillio o gyfarfodydd blaenorol wedi'u hychwanegu at Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.

9. Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc

Daeth y Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc i'r cyfarfod a gyda Chadeirydd y Pwyllgor Dethol, nodwyd awgrymiadau ar gyfer sylw'r Pwyllgor yn y dyfodol:

- Newidiadau i God Ymarfer ADY (Tracey Pead, Swyddog Arweiniol Rhanbarthol)
- Bwrdd Iechyd Trawsnewid a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: Cymorth i blant sydd ag anghenion iechyd meddwl a lles – Dr L. Jones
- Cynhwysiant mewn ysgolion / rheoli ymddygiad / Gwahardd: Polisi Ymddygiad ALI ar gyfer pob ysgol
- Meysydd Risg e.e. pwysau ariannol
- Newidiadau sy'n ymwneud â'r cynllun 2 flynedd ar gyfer Gwasanaethau Plant a'r effaith ar ysgolion
- Adroddiad Blynyddol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc – Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd
- Perfformiad Prydau Ysgol am Ddim: Adroddiad gan Ysgol Cas-gwent
- Cynlluniau ar gyfer Ysgol Arbennig Tŷ Mouton – craffu cyn i'r Cabinet ystyried yr hyn a fydd yn digwydd i blant o'r fath yn eu hysgolion eu hunain
- Ysgol Cas-gwent yn colli disgyblion dros ffin y sir.

- Strategaeth 10 mlynedd Addysg Cyfrwng Cymraeg, ysgol newydd arfaethedig a goblygiadau i Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y sir.
- Ymgysylltu â'r Fforwm Ieuentid
- Strategaeth Gofalwyr Ifanc
- Digonolrwydd gofal plant
- Lles – gordewdra, anhwylderau bwyta
- Canlyniadau arholiadau – newid sylweddol, dim cydgasglu mwyach

Agenda ar gyfer 17^{eg} Medi 2019

- Tŷ Mounton
- Monitro'r Gyllideb

Yn gynnar ym mis Medi 2019: Cyd-bwyllgorau Dethol Plant a Phobl Ifanc ac Oedolion

- Cynllun Corfforaethol
- Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog (Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd)

10. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet

Unrhyw eitemau i dynnu sylw atynt i graffu neu i weld yr adroddiad yn unig

11. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

The meeting ended at **11.37 am**